# Effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd ymyriadau atal problemau ymatal yn deillio o drawma wrth roi genedigaeth: adolygiad cyflym

Medi 2024

Bethany Fern Anthony, Jacob Davies, Kalpa Pisavadia, Sofie Roberts, Llinos Haf Spencer, Elizabeth Gillen, Juliet Hounsome, Jane Noyes, Dyfrig Hughes, Deborah Fitzsimmons, Rhiannon Tudor Edwards, Elizabeth Doe, Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis

## Cefndir



Mae oddeutu **85% o enedigaethau gweiniol yn y DU yn arwain at anaf i'r perinëwm** (y meinwe rhwng y wain a'r anws), naill ai drwy rwygo ar hap neu doriad llawfeddygol pwrpasol (sy'n cael ei alw yn 'episiotomi').


Gall anaf i'r perinëwm o ganlyniad i roi genedigaeth (sydd hefyd yn cael ei alw yn **drawma perineaidd**) gyfrannu yn sylweddol at broblemau ymatal wrinol ac ysgarthol.

Mae ymatal yn rhoi **baich ariannol sylweddol ar y GIG**, yn benodol 'anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen' (sy'n cael ei achosi gan straen ar y bledren megis tagu neu disian), sy'n costio **amcangyfrif o £177 miliwn y flwyddyn**.

Mae ystyried effaith trawma perineaidd ar iechyd menywod **ar lefel byrdymor a hirdymor yn hanfodol.**

## Nodau'r astudiaeth

Nodi tystiolaeth ar **effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal problemau anymataliaeth yn deillio o drawma wrth roi genedigaeth.**



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

## Sail Dystiolaeth

Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys tystiolaeth rhwng 2003 a 2024, gan gynnwys:

**20** o adolygiadau systematig o **effeithiolrwydd clinigol**

**3** o arfarniadau **economaidd**

## Canfyddiadau Allweddol

**Mae'r adolygiad hwn yn cefnogi buddsoddiad i ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth.**



Nododd yr adolygiad hwn **sail dystiolaeth fawr ynghylch ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys Hyfforddiant Cyhyrau Llawr y Pelfis (PFMT)** cyn ac ar ôl rhoi genedigaeth, yn ogystal â thystiolaeth gyfyngedig o'i effeithiolrwydd hirdymor.

**Mae hyn yn alinio â chanllawiau NICE 2021**

Doedd dim cymaint o sôn am ymyriadau megis **tylino perineaidd cyn geni a dyfeisiau gweiniol** mewn llenyddiaeth, yn enwedig o ran deilliannau anymataliaeth ysgarthol.

Er gwaethaf diffyg gwybodaeth am gost-effeithiolrwydd ymyriadau, **mae'r baich economaidd sylweddol cysylltiedig ag anymataliaeth ar y GIG yn golygu bod angen buddsoddi i opsiynau ataliol sy'n effeithiol yn glinigol.**

## Bylchau Tystiolaeth

Mae bwlch tystiolaeth mawr o ran **cost-effeithiolrwydd ymyriadau â'r nod o atal anymataliaeth yn deillio o drawma wrth roi genedigaeth.**

## Camau Nesaf

Mae angen ymchwil yn y dyfodol er mwyn:

- deall ymhellach profiadau menywod o'r ymyriadau sydd ar gael, a'u blaenoriaethau yn hynny o beth
- deall ymhellach hyfywedd a gweithrediad ymyriadau ar gyfer atal anymataliaeth mewn ymarfer rheolaidd

Mae'r adolygiad cyflym llawn ar gael yma:
https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2024.09.09.24313310v1